

GWAHODDIAD I'R SYCHEDIG.

Emyn: 179 ‘*Dewch, hen ac ieuainc, dewch.*’

Darlleniad: Eseia 55:1-6.

A. PWY SY’N CAEL EU GWAHODD?

“*Dewch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno; dewch er eich bod heb arian; prynwch a bwytewch. Dewch, prynwch win a llaeth, heb arian a heb dâl,*” 1.

i) Y Sychedig: Mae Duw yn gwahodd ‘pob un y mae syched arno,’ syched am hapusrwydd, bodlonrwydd, bywyd gwell (syched cyffredinol ac ysbrydol). Pobl heb arian ydynt, pobl tlawd sydd wedi colli eu gobeithion a'u bywydau'n teimlo'n wag. Nid oes ganddynt ddim i'w gynnig – boed dylanwad neu adnoddau. Pobl tebyg y mae Duw'n galw.

ii) Yr Hunangynhaliol (Self-sufficient): “*Pam y gwariwch arian am yr hyn nad yw'n fara, a llafurio am yr hyn nad yw'n digoni?*” 2. Mae'r adnod yn cynnig bod gan y person yma arian i brynu pethau a nerth i weithio, ond nid ydyw'n fodlon ei fyd. Mae ganddo nerth i lafurio, breuddwydion i'w geisio ac mae'n arbrofi gyda phleserau bywyd. Ond nid yw'n profi llawenydd a'i fywyd sydd anghyflawn. Nid ydyw wedi darganfod gwir fodlonrwydd.

Meddai'r adnod, “*Dewch i'r dyfroedd, bob un,*” 1. **Mae'n alwad i bawb**, y sychedig sydd heb ddim a'r person hunan gynhaliol sydd â llawer ond heb fod yn fodlon a'i fywyd.

B. BETH SY’N CAEL EU CYNNIG IDDYNT?

“*Dewch i'r dyfroedd, ... prynwch win a llaeth.*”

i) **Dŵr**: Mae'r gair 'dyfroedd' yn cynnig dŵr. Dyma ddiod sy'n adfywio. lesu yw'r dŵr bywiol! Meddai lesu, “*Pwy bynnag sy'n yfed o'r dŵr a roddaffi iddo, ni bydd arno syched byth. Bydd ... yn ffrydio i fywyd traghwyddol,*” Ioan 4:14. Beth oedd lesu'n sôn amdano? I bawb fuasai'n credu ynddo Ef, buasent yn derbyn o'r Ysbryd Glân ac yn profi bywyd cyflawn a thragwyddol.

ii) **Llaeth**: Mae llaeth yn rhoi maeth (nourishment) i berson i dyfu'n iach. Llaeth ysbrydol Duw yw'r Beibl.

iii) **Gwin**: Mae gwin yn gysylltiedig gyda'r hyn sy'n llonni neu'n bywiogi. Profir gwir lawenydd yn yr Arglwydd.

A oes arwyddocâd pellach i'r dŵr, llaeth a gwin yn ogystal a'r cyfeiriad at fara? Ystyrier dŵr a bwyd (bara) yn rheidrwydd bywyd – ni all berson fyw hebddynt. Yn ysbrydol mae derbyn Efengyl Crist yn rheidrwydd ar gyfer bywyd gyda Duw. Mae Duw yn rhoi mwy na'r hyn sy'n rheidrwydd – mae'n rhoi llaeth a gwin, rhoi nerth a llawenydd i'w bobl.

C. SUT MAE DERBYN O FENDITHION DUW?

Pa ddarpariaeth mae Duw'n ei gynnig? "Cewch fwyta'r hyn sydd dda, a mwynhau danteithion," 2. **Sut mae deall hyn?** Mae Duw yn darparu'r hyn sydd o safon uchel, yr hyn sydd ddigonol; mae'n rhoi'r gorau. **Beth arall wna gynnig?** "Gwrandewch arnaf, dewch ataf; clywch, a byddwch fyw. Gwnaf â chwi gyfamod tragwyddol, fy ffyddlondeb sicr i Dafydd," 3. **'Dewch ataf,'** - dyma wahoddiad Duw i bobl, i wir wrando arno, ac i brofi bywyd tragwyddol. Mae am gyfamod gyda'i bobl, cyfamod tragwyddol. Yn 2 Samuel 7 darllenwn am gyfamod rhwng Duw a Dafydd, cyfamod o gariad. Dyma mae Duw'n ei gynnig i'w blant, profi o'i gariad a'i ddaioni yn awr ac am byth.

Sut mae derbyn ei fendithion? i) 'Dewch' - Rhaid agosáu at Dduw. ii) 'Prynwch' – Er ein tlodi neu ein digonedd, rhaid derbyn bendithion Duw, y dŵr, llaeth a gwin. iii) 'Bwytewch' – Nid yw'n ddigon i dderbyn o fendithion Duw, rhaid eu profi, eu bwyta – maent yn fendith i'r enaid. iv) 'Mwynhewch' – Mae bendithion da a digonol Duw yn dwyn mwynhad.

A ydym wedi dod at Dduw a derbyn yr hyn sydd ganddo i'w gynnig? Dŵr, llaeth a gwin, bywyd cyflawn a cyfamod tragwyddol. Heddiw yw dydd iachawdwriaeth. "Ceisiwch

yr Arglwydd tra gellir ei gael," 6. Nid yw'r gwahoddiad i barhau am byth!

Gweddi:

O Dduw Dad, trown atat, y Duw tragwyddol a ffyddlon. Rydym oll wedi profi cyfnodau anodd o ganlyniad i'r pandemig, boed methu gweld teulu a ffrindiau, methu mynd i'r capel a gorfod cadw rheolau diogelwch niferus. Ni wyddom bryd y daw bywyd nôl i drefn ond gallwn bwys o arnat Ti, oherwydd yr wyt Ti'n gwybod pob dim ac yr wyt Ti wedi addo i fod gyda dy blant ym mhob sefyllfa.

Diolch am dy Air i ni heddiw ac am ein hatgoffa ei bod yn dal i fod yn ddyddiau o ras, a dy fod yn parhau i wahodd pobl i dy bresenoldeb. Diolch am dy fendithion cyson i ni - nerth yr Ysbryd Glân, y Beibl sanctaidd a chyfeillion yn y ffydd, i'n helpu trwy'r cyfnod anodd yma. Y mae dy fendithion yn gyson i ni; helpa ni i fod yn ffyddlon i Ti, drwy wrando ar dy eiriau a'u gosod ar waith yn ein bywydau. Helpa ni i ddangos dy gariad i bawb wnawn gyfarfod mewn bywyd. Yn enw lesu Mawr, Amen.

INVITATION TO THE THIRSTY.

Hymn: 906 ‘*What a friend we have in Jesus.*’

Reading: Isaiah 55:1-6.

A. WHO IS INVITED?

“Come, all you who are thirsty, come to the waters; and you who have no money, come, buy and eat! Come buy wine and milk without money and without cost,” 1.

i) **The Thirsty:** God invites ‘all who are thirsty’ to come, those who are thirsty for happiness, contentment, and a better life (a general and a spiritual thirst) are invited. People who have no money are invited, and those who have lost all hope and feel their lives are empty. They have nothing to offer – no influence or means. Yet God invites such people.

ii) **The Self-sufficient:** “*Why spend money on what is not bread, and labour on what does not satisfy?*” 2. This verse suggests that these people do have money to buy things and they have the strength and means to work, yet **they are not content with their lives.** They have their hopes and dreams, and chase after worldly pleasures, but they do not have joy in their lives, and they feel

unfulfilled. They have not found real satisfaction. God’s invitation is to ‘all’, the person who has nothing and the one who has much.

B. WHAT IS OFFERED?

“*Come to the waters, ... buy wine and milk,*” 1.

i) **Water:** Water is offered to refresh and renew a person. Jesus is the living water! “*Whoever drinks the water I give him will never thirst. Indeed, the water I give him will become in him a spring of water welling up to eternal life,*” John 4:14. What is Jesus speaking about? He tells us that everyone who believes in him will receive the Holy Spirit and experience eternal life.

ii) **Milk:** Milk offers nourishment, to enable a person to grow healthily. The spiritual milk of God is the Bible.

iii) **Wine:** Wine is associated with that which makes a person cheerful and lively. Real joy is found in God.

Is there any significance to the water, milk and wine, as well as a reference to bread? Water and bread (food) are considered essential to life; a person cannot live without them. Spiritually, receiving the Gospel of Jesus is essential for eternal life with God. Yet God offers more than life’s

essentials – he offers milk and wine, both strength and joy to his people.

C. HOW ARE WE TO RECEIVE OF GOD'S BLESSINGS?

What blessings does God offer? “*Listen, listen to me, and eat what is good and your soul will delight in the richest of fare,*” 2. The provisions of God are both good and plentiful – He offers that which is best. “*Give ear and come to me: hear me, that your soul may live,*” 3. This time, God invites people to come to Him, and for all who listen to Him, they will receive life everlasting. God desires to enter into a covenant with his people. “*I will make an everlasting covenant with you, my faithful love promised to David,*” 3. For all who will come and listen to God, they will enter into a covenant of love with Him, (just as David did – 2 Samuel 7) and will know of continued goodness and faithfulness in their lives.

How does a person receive such blessings? i) ‘Come’ – A person must draw near to God. ii) ‘Buy’ – Though they may be poor or in plenty, they must receive of God’s blessings, his water, milk and wine. iii) ‘Eat’ - It is not enough to receive from God; a person must ‘eat’, to receive inwardly to the soul and heart. iv) ‘Delight’ – God wants us to enjoy His blessings.

Have we come to God and received that which he has to offer?

Water, milk and wine, life in all its fullness and a relationship (covenant) which lasts forever. “Seek the Lord while he may be found,” 6. God’s offer does not last forever. Now is the day of salvation!

Prayer: O Heavenly Father, we turn to you because you are the eternal and faithful God. We have all experienced the effects of the pandemic, whether it be not being able to see loved ones, not being able to worship in the chapel or distancing ourselves from others to keep safe. We don’t know when it will all come to an end, yet we can find comfort in you, for you are all knowing, you know our circumstances, and you have promised to be with all your children.

We give thanks for your word to us this day. Thank you for reminding us that we live in days of grace, and that you are still prepared to receive people into a living relationship with you. We give thanks for your continued blessings to us both physical and spiritual. Thank you for the guidance of the Holy Spirit, and the comfort that we receive from the Bible; help us to not only read your word but to live it, in our daily lives. Help us to show your love, at this difficult time, to all that we meet. Amen.